# Cynllun Busnes

# ar gyfer Hybu Cig Cymru - Meat Promotion Wales

# (HCC) 2022 – 2026

**CYNNWYS**


| | | **Tudalen** |
|---|---|---|
| 1. | Ynglŷn â HCC | 2 |
| 2. | Cyflwyniad | 4 |
| 3. | Trosolwg o Sector Cig Coch Cymru | 7 |
| 4. | Amgylchedd Gweithredu | 12 |
| 5. | Cyllid | 17 |
| 6. | Rhaglen Gyflawni | 20 |

# 1. YNGLŶN Â HCC

## Gweledigaeth

Diwydiant sy’n broffidiol, effeithlon, cynaliadwy, arloesol a chystadleuol sy’n ymdopi gyda newidiadau gwleidyddol ac amgylcheddol ac sydd o fudd i bobl Cymru.

## Diben

HCC yw'r corff ardoll dan arweiniad y diwydiant sy'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch o Gymru.

Mae HCC yn cydweithio â phob sector o'r diwydiant cig coch, o ffermwyr i fanwerthwyr, ac yn gweithio i adeiladu'r diwydiant a datblygu marchnadoedd proffidiol ar gyfer Cig Oen Cymru PGI, Cig Eidion Cymru PGI a phorc o Gymru.

Yn y DU ac mewn llawer o farchnadoedd pwysig ledled y byd, mae HCC yn gweithio gyda manwerthwyr, proseswyr a gweithredwyr gwasanaeth bwyd i gryfhau cyfleoedd busnes ac yn ymgymryd â rhaglenni hyrwyddo rheolaidd ar gyfer Cig Oen Cymru Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) a Chig Eidion Cymru PGI. Ar draws y gadwyn gyflenwi gyfan, mae HCC yn ymgymryd ag ymchwil a datblygu, yn rhannu gwybodaeth ac yn cefnogi hyfforddiant, i sicrhau bod diwydiant cig coch Cymru mewn sefyllfa i wella ansawdd, cynyddu cost-effeithiolrwydd ac ychwanegu gwerth at gynhyrchion cig coch Cymru. Gwneir hyn tra bod elfennau cynaliadwyedd unigryw Cymru yn cael eu cynnal a, lle bo hynny'n bosibl, yn cael eu gwella.

## Cyllid

Daw cyllid craidd HCC o Ardoll Cig Coch Cymru. Ers mis Ebrill 2021 mae HCC hefyd wedi bod yn derbyn ardoll wedi'i ddychwelyd (ardoll sy'n cael ei chyfrifo ar dda byw a anwyd ac a fagwyd yng Nghymru sy'n cael eu lladd yn Lloegr neu'r Alban).

Roedd HCC yn derbyn cyllid ychwanegol trwy Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru tan fis Medi 2023. Mae HCC bellach yn chwilio am gyllid amgen ac yn gweithio ar y cyd â chyrff ardoll Prydain Fawr, cyrff ymchwil a sefydliadau perthnasol eraill, er mwyn cael mynediad at gyllid a sefydlu rhaglenni sydd o fudd i'r gadwyn gyflenwi gyfan.

## Mesur Llwyddiant

Fel rhan o gyflawni ei amcanion, mae gan HCC fframwaith monitro sefydledig sydd:

- Yn caniatáu i HCC fesur cynnydd wrth gyflawni ei amcanion;
- Yn darparu gwybodaeth reoli werthfawr i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a Bwrdd HCC;
- Yn caniatáu i HCC gyfleu ei berfformiad i randdeiliaid allanol; ac
- Yn darparu sail ar gyfer gwerthuso ar adeg briodol.

Mae'r fframwaith monitro yn tynnu'r camau gweithredu a'r mesuriadau o'r Cynllun Gweithredol ac yn monitro'r perfformiad yn erbyn y targedau hyn trwy gydol y flwyddyn.

Er mwyn dangos gwerth gweithgareddau HCC (mesur llwyddiant) i dalwyr a rhanddeiliaid, mae HCC yn mesur nifer o fetrigau yn barhaus:

- Allbynnau: mesur gwelliant,
- Canlyniadau: mesur a yw budd yn cael ei gyflawni, ac
- Effaith: mesur a oedd y gweithgareddau o werth i dalwyr ardoll.

**Bwrdd y Cyfarwyddwyr**

Mae HCC yn eiddo llwyr i Weinidogion Cymru ac mae Gweinidogion Cymru yn gwneud penodiadau i Fwrdd HCC yn unol â chod ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus. Mae'r Bwrdd yn cynrychioli talwyr ardoll ffermwyr a phroseswyr ac eraill sy'n meddu ar sgiliau sy'n berthnasol i ddatblygiad y sefydliad yn y dyfodol.

Mae’r Bwrdd yn cynnwys 11 o gyfarwyddwyr anweithredol (gan gynnwys y Cadeirydd) fel sydd wedi’i nodi

yn https://meatpromotion.wales/cy/about/corporate-information-2/hcc-board/.

Mae dau Bwyllgor Statudol a Gweithgor hefyd yn bodoli i gynghori'r Bwrdd ar wahanol swyddogaethau a ffrydiau gwaith.

## 2. CYFLWYNIAD

Mae'r sector amaethyddol yng Nghymru yn darparu gweithgarwch economaidd a chyflogaeth hanfodol mewn ardaloedd gwledig, sy'n cefnogi cydlyniant cymunedol gwledig, yn darparu manteision diwylliannol a lles ac yn diogelu adnoddau naturiol cyfoethog Cymru. Mae sector amaethyddol ffyniannus hefyd yn cyfrannu at gyfalaf cymdeithasol mewn ardaloedd gwledig ar ffurf cydweithrediad a chymorth i'r ddwy ochr, o fewn y gymuned ffermio a rhwng busnesau fferm a'r gymuned ehangach.

### Gweledigaeth Cig Coch i Gymru

Wedi'i lansio ym mis Mai 2018, mae'r *Gweledigaeth Cig Coch i Gymru* yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer y sector cig coch. Mae'n ystyried y risgiau strategol o ran masnach, cynhyrchu a phrosesu cig coch o Gymru, ac un o'r mwyaf ohonynt yw'r cyfraniad sylweddol mae cymorth amaethyddol yn ei wneud ar hyn o bryd tuag at broffidioldeb. Mae hefyd yn ystyried cyfleoedd tymor hwy posibl. Mae'n nodi cyfarwyddyd ar gyfer sut mae Bwrdd HCC yn credu y dylid canolbwyntio ar arian Ardoll Cig Coch Cymru er mwyn i HCC ymgymryd â'i swyddogaethau statudol mewn ffordd a fydd yn dod â'r budd mwyaf posibl ar ran y sector cyfan.

Y weledigaeth ar gyfer diwydiant cig coch Cymru yw:

*Diwydiant sy'n broffidiol, effeithlon, cynaliadwy, arloesol a chystadleuol sy'n ymdopi gyda newidiadau gwleidyddol ac amgylcheddol ac sydd o fudd i bobl Cymru.*

Yn dilyn adolygiadau o'r Weledigaeth gan Fwrdd HCC ym mis Tachwedd 2020 a Rhagfyr 2021, penderfynwyd bod y naw maes blaenoriaeth sy'n sail i'r Weledigaeth yn parhau i fod yn berthnasol. Cytunodd y Bwrdd fodd bynnag bod angen integreiddio'r heriau a'r cyfleoedd mae cynaliadwyedd yn eu cyflwyno i ddiwydiant cig coch Cymru, wrth ymateb i newid yn yr hinsawdd a gwella'r negeseuon tarddiad.

### Y Ffordd Gymreig

Mae'r argyfwng hinsawdd yn fater brys ac yn fyd-eang o ran maint. Mae dynoliaeth yn wynebu'r her o gynhyrchu digon o fwyd o ansawdd uchel a'i ddosbarthu'n deg ymhlith poblogaeth sy'n tyfu. Mewn ymateb, mae gan y 'Ffordd Gymreig' o ffermio lawer i'w gynnig.

Wedi'i gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2020, mae *Y Ffordd Gymreig* yn archwilio beth yw sefyllfa Cymru yng nghyd-destun byd-eang cynaliadwyedd a diogelwch bwyd ac yn cyflwyno achos o ble gall sector cig coch Cymru wneud gwahaniaeth cadarnhaol gwirioneddol i gyflawni nodau'r genedl. Mae'r ddogfen yn ystyried tri cholofn cynaliadwyedd - economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Mae hefyd yn defnyddio mewnbwn technegol gan arbenigwyr byd-enwog i ddadansoddi allyriadau cyfredol a photensial atafaelu carbon ffermio defaid a chig eidion yng Nghymru, yn edrych ar gwmpas i'w wella ymhellach, ac yn dadlau bod gan ffermio defaid a chig eidion yng Nghymru y potensial i ffurfio system gynhyrchu bwyd proffidiol, gynaliadwy, allyriadau isel.

Mae ffermwyr Cymru yn cynhyrchu cynnyrch maethlon o ansawdd uchel ar dir ymylol, sy'n anaddas i raddau helaeth ar gyfer cnydau âr. Mae hyn yn cael ei wneud yn bennaf mewn systemau nad ydynt yn ddwys, gan ddefnyddio glaswellt a dŵr glaw i fagu anifeiliaid, a thrwy hynny osgoi cyfrannu at ddatgoedwigo a defnydd anghynaladwy o adnoddau dŵr

mewn mannau eraill yn y byd. Mae gostyngiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwastraff eisoes wedi'u cyflawni ac mae gostyngiadau pellach yn bosibl tra hefyd yn cyfrannu'n gadarnhaol at atafaelu carbon, adfywio pridd a mwy o fioamrywiaeth. Mae amaethyddiaeth da byw a chynhyrchu bwyd hefyd yn cynnal cynaliadwyedd economaidd a diwylliannol cymunedau bywiog yng Nghymru ac felly mae diwydiant cig coch Cymru mewn sefyllfa gref i gyflawni yn erbyn tair piler cynaliadwyedd.

Mae rhagor o gyhoeddiadau yn deillio o'r ddogfen ymbarél hon, sy'n rhoi mwy o fanylion am y camau lliniaru posibl y gallai diwydiant cig coch Cymru eu mabwysiadu i weithio tuag at lai o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Dylai Cymru flaenoriaethu mesurau effeithlonrwydd sy'n lleihau allyriadau tra'n cynnal cynhyrchu, gan fod amaethyddiaeth da byw a chynhyrchu bwyd yn cynnal cynaliadwyedd economaidd a diwylliannol cymunedau bywiog yng Nghymru.

**Datganiad Cynaliadwyedd**

Mae Cymru eisoes yn un o'r lleoedd mwyaf cynaliadwy yn y byd i gynhyrchu cig coch, gyda'i ffermio nad yw'n ddwys yn seiliedig ar ddigon o law a thwf glaswellt nad yw'n dibynnu ar borthiant wedi'i fewnforio.

Ein huchelgais yw cynhyrchu cig coch o ansawdd uchel yn gynaliadwy y mae galw amdano mewn marchnadoedd ledled y byd; gan ganolbwyntio ar y tair piler cynaliadwyedd (economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol) tra'n darparu mantais gystadleuol i gynhyrchiant cig coch Cymru:

- Cefnogi economi wledig ffyniannus a chadwyn gyflenwi cig coch
- Diogelu'r amgylchedd naturiol
- Gwarchod a gwella bioamrywiaeth
- Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd
- Cynorthwyo gwytnwch cymunedol a meithrin ieithoedd a diwylliannau Cymru
- Cyfrannu'n gyfrifol tuag at gynnal poblogaeth iach
- Mynd i'r afael â diogelwch bwyd byd-eang
- Diwallu anghenion y presennol heb gyfaddawdu, a lle bo'n bosibl, gwella gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac mae'r cynllun hwn yn ceisio ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy’r Ddeddf yng ngwaith HCC wrth gyflawni'r saith nod llesiant.

**Saith Nod Llesiant**




Mae'r cynllun hwn wedi ystyried effeithiau hirdymor gweithgareddau a gynlluniwyd mewn perthynas â phobl a chymunedau, gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf ac mae'n ceisio mynd i'r afael â heriau ac yn cymhwyso dull cyfunol o gefnogi cadwyn gyflenwi cig coch Cymru.

| **Egwyddorion datblygu cynaliadwy** | |
|---|---|
| **Pum ffordd o weithio** | **Cydweithio**<br>Gweithredu ar y cyd ag eraill i fodloni amcanion |
| | **Integreiddio**<br>Ystyried sut y gall amcanion effeithio ar ei gilydd |
| | **Ymglymiad**<br>Cynnwys pob parti sydd â diddordeb mewn cyflawni'r amcanion |
| | **Tymor hir**<br>Cydbwyso’r anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r anghenion hirdymor |
| | **Atal**<br>Gweithredu i fynd i'r afael â heriau |

## 3. TROSOLWG O'R SECTOR CIG COCH YNG NGHYMRU

Mae Cymru yn cael ei nodweddu gan dopograffeg ucheldirol a mynyddig. Mae'r dirwedd hon, ochr yn ochr â hinsawdd forwrol Cymru, yn arwain at gyfran fawr o dir amaethyddol (80 y cant)[1] yn cael ei chategoreiddio fel 'ardaloedd llai ffafriol' (LFA). Felly, mae'r hinsawdd a'r tir yng Nghymru yn pennu'r math o ddefnydd tir amaethyddol, gan arwain at y mwyafrif o'r tir yn bod fwyaf addas ar gyfer pori a ffermio da byw (defaid a gwartheg).

- Mae allbwn amaethyddol cyfanredol (allbwn gros) yng Nghymru werth £2.1 biliwn (2022) i'r economi.[2]
- Mae 49,850 o bobl yn gweithio'n uniongyrchol yn y sector amaethyddol yng Nghymru (Mehefin 2022).[3]
- Mewn ardaloedd gwledig mae yna fusnesau eraill sy'n dibynnu ar amaethyddiaeth i wneud eu bywoliaeth, a thrwy hynny ymestyn gwerth economaidd amaethyddiaeth i'r ardal. Ar hyn o bryd mae sector da byw Cymru yn seiliedig ar fàs critigol o fentrau bach, gan gyfrannu at gyfanrwydd mwy sy'n cefnogi gweithgarwch economaidd a chyflogaeth ar draws ardaloedd helaeth o Gymru.
- Mae'r sector amaethyddol yng Nghymru hefyd yn gwneud cyfraniad hanfodol at warchod y Gymraeg. Mae data cyfrifiad 2021 yn nodi, o'r holl ddiwydiannau yng Nghymru, amaethyddiaeth, ynni a dŵr sydd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg, gyda 30% o'r holl weithwyr yn gallu siarad Cymraeg[4].
- Gyda chynhyrchiad amaethyddol yn cyfrif am 90 y cant o'r defnydd tir yng Nghymru,[5] mae'n amlwg hefyd yn chwarae rhan bwysig wrth gyfrannu at reoli adnoddau naturiol Cymru yn ehangach. Mae'r sector da byw yn cynhyrchu bwyd o safon ar dir sy'n anaddas i raddau helaeth at ddibenion cynhyrchiol eraill, mewn ffyrdd nad ydynt yn ddwys sy'n dibynnu ar lai o fewnbynnau ychwanegol.
- Mae amaethyddiaeth yng Nghymru yn cyfrannu at refeniw a gynhyrchir gan dwristiaeth drwy reoli'r dirwedd a thrwy ddarparu llety ac atyniadau i dwristiaid. Mae twristiaeth yn cyfrannu £3,064 miliwn i GYG yng Nghymru (2016) ac mae'n cefnogi tua 132,300 o swyddi (2018).[6]

### Cynhyrchu Cig Coch

Mae defaid yn dominyddu cynhyrchiant cig coch Cymru ac mae tua 29 y cant o ddiadell Prydain Fawr wedi'i leoli yng Nghymru (2021).[7] Mae'r fuches bridio eidion yng Nghymru wedi gostwng ar ôl diwedd taliadau cymorth 'cwpl', er bod y niferoedd wedi sefydlogi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r sector moch yng Nghymru yn fach (gyda'r boblogaeth bridio yn cynrychioli llai nag un y cant o fuches Prydain Fawr) ac mae'n nodweddiadol o nifer gymharol fawr o ddaliadau bach iawn.

---

[1] Llywodraeth Cymru. Amaethyddiaeth yng Nghymru. 2019.
[2] Llywodraeth Cymru. Allbwn ac incwm amaethyddol cyfanredol. 2022.
[3] Llywodraeth Cymru. Arolwg Amaethyddiaeth a Garddwriaeth: Canlyniadau i Gymru. Mehefin 2022.
[4] Llywodraeth Cymru (2023) *Cyfrifiad 2021: Y Gymraeg yn ôl nodweddion poblogaeth*. Ar gael yn: https://www.gov.wales/welsh-language-population-characteristics-census-2021-html#124333 [Cyrchwyd 02/02/24]
[5] Llywodraeth Cymru. Arolwg Mehefin 2020 o Amaethyddiaeth a Garddwriaeth: Canlyniadau i Gymru. 17 Rhagfyr 2020.

[6] Llywodraeth Cymru. Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr economi ymwelwyr 2020- 2025.
[7] Defra a Llywodraeth Cymru.




*Llywodraeth Cymru a'r System Olrhain Gwartheg*

Mae maint y sector defaid yng Nghymru a'r ffaith bod 13 y cant o drwybwn ŵyn mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru (2021)[8] yn cael ei ystyried yn "ŵyn ysgafn" (ŵyn wedi'u pesgi sy'n pwyso llai na 32kg) yn dangos natur unigryw sector defaid Cymru, ac yn tynnu sylw at gyfle i'r diwydiant.

Her sy'n wynebu'r diwydiant yw gwneud cynnydd o ran nifer y carcasau cig oen a chig eidion sy'n cyrraedd manylebau'r farchnad a sicrhau pryniant ymhlith cynhyrchwyr i'r rhesymeg sylfaenol y tu ôl i'r gofynion hyn i wneud y gadwyn gyflenwi yn fwy effeithlon.

Mae maint sector cig coch Cymru hefyd yn golygu bod yn rhaid gwneud ymdrechion sylweddol i baratoi cynhyrchwyr cig coch ar gyfer dyfodol ffermio nad yw'n dibynnu ar daliadau cymorth ar gyfer hyfywedd. Y ffermydd mwyaf effeithlon fydd yn y sefyllfa orau i ymateb ac felly bydd yr angen i fynd i'r afael â chostau cynhyrchu ar ffermydd defaid a chig eidion Cymru a'u gostwng yn hanfodol. Bydd yn hanfodol cefnogi'r diwydiant i wneud y newidiadau angenrheidiol mewn cynhyrchiant ac effeithlonrwydd. Gall gwelliannau mewn effeithlonrwydd technegol hefyd helpu i liniaru a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gallai datblygu dangosyddion newid yn yr hinsawdd ar gyfer cynhyrchu defaid a chig eidion ddarparu'r gallu i fesur a hyrwyddo cymwysterau cynaliadwyedd cynhyrchu cig coch Cymru. Gall technolegau newydd gynnig gwelliannau ymarferol a ffyrdd posibl o feintioli nodweddion anodd eu mesur fel cynnyrch cig ac ansawdd bwyta.

Mae'r sector cig coch yn parhau i wynebu heriau gyda chwyddiant mewnbwn, gan gynnwys costau ynni, tanwydd a bwyd cynyddol. Er gwaethaf prisiau allbwn sefydlog, mae'r sector yn parhau i gael ei effeithio gan elw tynn cyffredinol, gyda llawer o systemau ffermio yn y DU a Chymru, yn teimlo'r effeithiau.

Un sbardun allweddol tuag at gyflawni gweledigaeth HCC ar gyfer y sector cig coch yw canolbwyntio ar yr angen i gynnal màs critigol o dda byw yng Nghymru. Mae màs critigol yn cyfeirio at y cyfaint o gig coch sydd ei angen er mwyn masnachu'n effeithlon ac yn gystadleuol mewn marchnadoedd byd-eang tra'n cynnal twf ac effeithlonrwydd ar hyd y gadwyn gyflenwi. Os na fydd ffermwyr yn cael eu hannog i gynnal niferoedd da byw yng Nghymru (yn enwedig defaid a gwartheg), bydd effaith enfawr ar gyflenwad cig oen a chig eidion, gan effeithio ar hyfywedd a phroffidioldeb yr holl gadwyn gyflenwi cig coch Cymru ac yn effeithio ar refeniw sy'n deillio o fwyd. Mae rhyng-ddibyniaeth rhwng gwahanol rannau o'r gadwyn gyflenwi yn golygu y gallai colli màs critigol ar unrhyw un pwynt arwain at gwymp ehangach. Yn ogystal, trwy gadw poblogaeth sy'n gweithio, mae ffermio yn cyfrannu at y màs critigol poblogaeth sydd ei angen i gyfiawnhau gwasanaethau cyhoeddus mewn rhai ardaloedd gwledig ac yn cyfrannu at y gronfa o lafur sydd ar gael ar gyfer rolau economaidd a gwirfoddol eraill yn yr economi leol, gan helpu i gynnal cymunedau.

[8] AHDB a LAA. Trwybwn Pwysau Byw, Cymru. 2021.

**Cyflenwad Cig Coch**

Gyda 22 o farchnadoedd yn gweithredu yng Nghymru sy'n gwerthu da byw wedi'u pesgi a thrwybwn blynyddol o 8,600 o wartheg dethol a 1.2 miliwn o ddefaid dethol (2021)[9], mae marchnadoedd da byw yn chwarae rhan allweddol yn y gadwyn gyflenwi cig coch yng Nghymru, wrth gynnig cyfleoedd ar gyfer manwerthu da byw yng Nghymru ac wrth gefnogi cymunedau gwledig (drwy greu swyddi a darparu hwb gymdeithasol a hwb busnes). Yn ganolog i gyflawni'r manteision ehangach hyn mae llwyddiant system y farchnad da byw wrth wireddu gwerth ychwanegol i'r prynwr a'r gwerthwr.

**Prosesu Cig Coch**

Ar hyn o bryd mae 16 o ladd-dai cig coch gweithredol yng Nghymru (Rhagfyr 2023) ac mae pob un ohonynt yn wynebu heriau mewn perthynas â chyrchu da byw, prinder llafur, chwyddiant costau, tarfu ar lif masnach a gofynion defnyddwyr sy'n newid. Mae newidiadau yn y galw o'r marchnadoedd manwerthu, gwasanaeth bwyd ac allforio yn parhau i effeithio ar lefelau trwybwn wythnosol.

Dangosodd adolygiad o sector lladd-dai a phrosesu Cymru a gynhaliwyd yn 2020 fod capasiti i ehangu. Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wneud y gorau o drwybwn mewn lladd-dai yng Nghymru yn parhau i gael eu cyfyngu gan nifer o ffactorau sy'n cael effaith sylweddol ar berfformiad y sector yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys ffactorau fel amrywio niferoedd da byw, cydymffurfiaeth reoleiddiol cynyddol, cost ar gyfer gwaredu sgil-gynhyrchion, gwerth cymharol isel crwyn ac offal, yn ogystal â phrinder llafur medrus.

Her graidd o hyd yw sut i sicrhau arloesedd cynnyrch a'r gadwyn gyflenwi, deallusrwydd i'r farchnad a marchnata effeithiol mewn diwydiant lle mae cynhyrchu sylfaenol wedi'i wasgaru rhwng nifer fawr o fusnesau bach, llawer ohonynt eisoes o dan bwysau ariannol, a lle mae'r diwydiant prosesu yn cael ei ddominyddu gan nifer fach o gwmnïau, y mae pencadlys y rhan fwyaf ohonynt y tu allan i Gymru. Bydd cydweithrediad parhaus ar draws y sector cig coch yn hanfodol i helpu i fodloni'r her hon.

**Masnachu mewn Cig Coch o Gymru**

Mae chwyddiant bwyd cynyddol yn dal i gyflwyno heriau tymor byr a thymor hwy i'r diwydiant cig coch yng Nghymru. Wrth i brisiau aros ar lefel uchel, mae'n anodd rhagweld tueddiadau galw am gig coch wrth i ddefnyddwyr deimlo'r wasgfa ar eu gwariant cartref.

Gyda dim ond pump y cant o'r cig coch a gynhyrchir yng Nghymru yn cael ei fwyta yn y farchnad gartref (Cymru), mae Cymru yn parhau i fod yn ddibynnol iawn ar farchnadoedd domestig - yn enwedig Lloegr - a marchnadoedd allforio byd-eang. Mae mwy na thraean o'r cig oen a 15 y cant o'r cig eidion a gynhyrchir yng Nghymru yn cael ei allforio y tu allan i'r DU, i'r UE yn bennaf. Ar hyn o bryd mae tua 90 y cant o allforion yn mynd i'r UE. Yn 2021, allforiwyd tua 24,000 tunnell o gig dafad a 14,000 tunnell o gig eidion (ffres/wedi'i rewi) o darddiad Cymreig o'r DU, ac amcangyfrifwyd bod hyn werth £210 miliwn ochr yn ochr ag allforion offal.[10]

---

[9] AHDB, LAA.
[10] Amcangyfrifon HCC yn seiliedig ar ddata CThEF y DU

Mae marchnadoedd tramor yn hanfodol i helpu i leddfu'r her barhaus o gyflawni cydbwysedd carcasau a hefyd i wneud y mwyaf o werth carcasau trwy chwilio am y marchnadoedd gwerth uchaf ar gyfer y gwahanol ddarnau. Mae marchnadoedd lle mae galw am ddarnau gwerth is ac offal hefyd yn darparu gwell enillion i'r diwydiant yng Nghymru, gan fod gan y cynhyrchion hyn ar hyn o bryd yn cynnig ychydig neu ddim gwerth ar y farchnad ddomestig.

Yn ogystal â marchnadoedd presennol yr UE a'r tu allan i'r UE, mae HCC ar hyn o bryd yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraethau i ddatblygu masnach cig coch Cymru yn UDA.

Mae'r gallu i ddenu premiwm am gig coch Cymru yn allweddol i lwyddiant. Mae statws PGI felly yn bwysig i ddiwydiant cig coch Cymru gan fod Cig Oen Cymru a Chig Eidion Cymru yn rhan gynhenid a gwerthfawr o gynhyrchu bwyd yng Nghymru ac mae brand Cymru yn defnyddio tirwedd eiconig Cymru ar y cyd â'i ddylanwad cymdeithasol a diwylliannol unigryw. Mae'r statws PGI yn darparu gwarant o darddiad a marc o ansawdd; gan atgyfnerthu hyder defnyddwyr yn y cynhyrchion a chaniatáu iddynt gael eu gwerthu am bris premiwm. Mae enillion domestig a byd-eang yn dibynnu ar y gallu i godi premiwm effeithiol a'r gallu i wahaniaethu a hyrwyddo cynhyrchion wedi'u brandio. Bydd cyfleoedd i adeiladu ar frand PGI yn cael eu harchwilio a'u defnyddio i gynnwys ffactorau eraill fel ansawdd bwyta a'i elfennau amgylcheddol.

Mae dibyniaeth sector cig coch Cymru ar farchnadoedd allforio yn dod â sensitifrwydd i natur anwadal gwleidyddol ac economaidd a gwerth y bunt. Felly, rhaid gwneud ymdrechion i nodi a datblygu marchnadoedd sy'n gallu lledaenu'r risgiau economaidd a gwleidyddol.

**Bwyta Cig Coch**

Mae demograffeg newidiol aelwydydd llai gyda ffyrdd o fyw prysur a'r angen am atebion prydau cyflym a hawdd yn parhau i sbarduno'r galw. O fewn hyn bu symudiad ar gyfer maint mwy cyson o garcas y gellir ei brosesu'n ddarnau yn fwy cost-effeithiol. Mae pris yn parhau i fod yn sbardun allweddol ac mae cig coch yn wynebu cystadleuaeth gynyddol gan ffynonellau rhatach o brotein fel cyw iâr, pysgod a phroteinau nad ydynt yn gig.

Mae hyn wedi cael ei waethygu ymhellach gan gostau cynyddol – ac yn enwedig, prisiau cynyddol bwyd mewn siopau. Er bod chwyddiant prisiau bwyd bellach wedi gostwng o gynnydd digid dwbl misol i 9.7% am y tro cyntaf ers mis Gorffennaf 2022[11], mae defnyddwyr yn dal i deimlo'r pwysau. Mae newid ymddygiad defnyddwyr yn her i'r diwydiant, a allai roi pwysau pellach ar y farchnad.

Mae ffactorau cymdeithasol a gwleidyddol ehangach yn parhau i gael dylanwad sylweddol ar arferion prynu defnyddwyr. Mae canfyddiad y cyhoedd o effaith andwyol bosibl cig coch yn eu diet ar iechyd a'r symudiad tuag at fwyta hyblyg yn parhau. Mae'r rhain, ynghyd â dadl ar effaith amgylcheddol cynhyrchu da byw, yn cyflwyno heriau penodol mewn perthynas â bwyta cig coch.

Mae'r ffactorau cymdeithasol hyn yn cynhyrchu pwysau cynyddol i ddatblygu cynhyrchion cig coch Cymru newydd, arloesol ac iach a all ddarparu atebion cyfleus amlbwrpas i ddefnyddwyr a helpu i sicrhau cydbwysedd carcasau.

[11] Kantar, Tachwedd 2023

Mae angen cynyddol hefyd i addysgu defnyddwyr am bwysigrwydd manteision iechyd cig coch fel rhan o ddeiet cytbwys, ac i wrthsefyll canfyddiad negyddol y cyhoedd o ddiwydiant â chymhorthdal sy'n cael effaith andwyol ar yr hinsawdd.

## 4. YR AMGYLCHEDD GWEITHREDU

Mae busnesau cig coch yng Nghymru yn gweithredu o fewn nifer o gyfyngiadau felly mae'n bwysig eu bod yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd a chryfderau.

**Diwydiant Cig Coch**

Mae nifer o ystyriaethau gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, technolegol ac amgylcheddol ar gyfer diwydiant cig coch Cymru, a bydd llawer ohonynt yn cael effaith sylweddol ar wydnwch, perfformiad a phroffidioldeb y sector yn y dyfodol.

**Cryfderau**

- Cyflenwad mawr o ŵyn a gwartheg a gynhyrchir yn bennaf oddi ar systemau glaswellt/porthiant naturiol – yn apelio at ddefnyddwyr sydd â chanfyddiad cryf o gig coch Cymru a'i elfennau amgylcheddol a lles anifeiliaid uchel
- Mae topograffeg a hinsawdd Cymru mewn sefyllfa ddelfrydol ar gyfer cynhyrchu glaswelltir sy'n cefnogi cynhyrchu cig coch cynaliadwy
- System marchnad da byw sy'n gwireddu gwerth ychwanegol i'r prynwr a'r gwerthwr
- Mae enw da'r sector cig coch yn caniatáu gwahaniaethu fel cynnyrch premiwm
- Cynhyrchu yn bennaf o sylfaen ffermydd teuluol - sylfaen draddodiadol o brofiad mewn ffermio stoc da ynghyd â rheolaeth amgylcheddol
- Amrywiaeth o fridiau a systemau cynhyrchu i fodloni gofynion galw gwahanol
- Mae profiad gwerthu rhyngwladol a domestig datblygedig (cig oen yn arbennig) wedi creu delwedd ac enw da cryf o Gig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI
- Y gallu i segmentu marchnadoedd ac i nodi cyfleoedd marchnad arbenigol
- Mae dychwelyd ardoll yn cefnogi'r diwydiant ymhellach yn ariannol
- Mae'r amrywiaeth o feintiau a strwythur lladd-dai (o fusnesau mawr iawn i ficro-fusnesau) yn caniatáu cyflenwi i ystod o farchnadoedd posibl (manwerthu lluosog i gig mewn bocsys)
- Mae’r diwydiant mewn sefyllfa dda i ymateb i faterion diogelwch bwyd byd-eang trwy gynhyrchu cig coch cynaliadwy

**Gwendidau**

- Dibyniaeth drwm ymhlith prif gynhyrchwyr ar daliadau cymorth
- Cost gynhyrchu sylfaenol gymharol uchel sy'n gwaethygu'r angen am bremiwm cig coch o Gymru
- Mae prif gynhyrchiant wedi'i ledaenu rhwng nifer fawr o fusnesau bach, sy'n cyfyngu ar arloesedd cynnyrch a chadwyn gyflenwi a chasglu gwybodaeth y farchnad
- Ecsbloetio cyfyngedig o eneteg anifeiliaid a phlanhigion sy'n datblygu
- Mae natur dymhorol cynhyrchu ac ansawdd carcasau amrywiol posibl yn cyfyngu ar gyfleoedd marchnata
- Cyfathrebu, cydlynu a chydweithredu cyfyngedig rhwng partneriaid y gadwyn gyflenwi
- Yn ddibynnol iawn ar gyflenwi i'r marchnadoedd agos, yn enwedig Lloegr a chymdogion agos yn yr UE, sy'n peri risg pe bai amodau'r farchnad yn newid a galw yn y marchnadoedd hyn yn gostwng neu'n dod i ben
- Mae dibyniaeth ar farchnadoedd allforio yn dod â sensitifrwydd i natur anwadal gwleidyddol ac economaidd a gwerth y bunt

- Mae dibyniaeth ar weithwyr mudol yn y sector lladd-dai a phrosesu wedi arwain at brinder llafur yn dilyn Brexit a disgwylir iddo barhau i fod yn her ar gyfer y tymor byr i'r tymor canolig

**Cyfleoedd**

- Byddai'r gallu i wahaniaethu'r 'Ffordd Gymreig' o gynhyrchu oddi wrth norm byd-eang sy'n cael ei ystyried yn niweidiol i'r amgylchedd yn helpu i wella canfyddiad defnyddwyr o gig coch o Gymru
- Denu pobl i weithio yn y diwydiant trwy ddarparu hyfforddiant a chefnogi astudiaethau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth
- Cynnal a gwella'r gydnabyddiaeth a'r canfyddiad cadarnhaol o frandiau cig coch Cymru ymhlith defnyddwyr targed mewn marchnadoedd presennol a marchnadoedd newydd yn y DU - mae defnyddwyr yn ceisio sicrwydd cynyddol o gynnyrch cynaliadwy o ansawdd uchel o darddiad hysbys. Mae'r dynodiadau PGI a GI yn caniatáu i ddiwydiant cig coch Cymru ddangos ei elfennau olrhain ac mae'r Ffordd Gymreig yn dangos neges gadarnhaol y diwydiant ar gynaliadwyedd
- Gellir canolbwyntio ar ddatblygu cynnyrch newydd ar sylfaen ddefnyddwyr sy'n newid ac ar gyfer cenhedlaeth wahanol o ddefnyddwyr fel bod y diwydiant mewn sefyllfa dda i gyflenwi rhannau penodol o'r gymdeithas â chig coch Cymru premiwm
- Mae demograffeg a sbardunwyr galw yn newid y galw am gynhyrchion cig coch ac mae galw cynyddol am ddarnau a charcasau maint cyson erbyn hyn - mae gan Gymru gryn gyfle i gynyddu nifer y carcasau cig oen a chig eidion sy'n cyrraedd y manylebau targed
- Mae marchnata cig coch wedi'i dargedu (cig oen yn arbennig) o fewn gwledydd sy'n agos yn ddaearyddol yn cyflwyno llawer o fanteision ond rhaid i'r diwydiant barhau i chwilio am farchnadoedd y tu allan i'r UE er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd a lledaenu'r risg. Mae marchnadoedd tramor yn hanfodol i helpu i leddfu'r straen parhaus ar gydbwysedd carcasau trwy chwilio am farchnadoedd gwerth uchel ar gyfer y gwahanol ddarnau
- Galw cynyddol am gig coch yn y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica (MENA) ac is-gyfandir India
- Bydd datblygu cynhyrchion cig coch Cymru newydd, arloesol ac iach yn darparu atebion amlbwrpas ac yn cynorthwyo i sicrhau cydbwysedd carcasau
- Mae manteisio ar werthiannau halal mewn marchnadoedd domestig ac allforio yn cyflwyno cyfle i gefnogi gwerthiannau cig dafad
- Hysbysu ac addysgu defnyddwyr am bwysigrwydd a manteision iechyd cig coch fel rhan o ddeiet cytbwys
- Cyfleoedd i leihau cost cynhyrchu trwy effeithlonrwydd ar y fferm, defnyddio hyfforddiant perthnasol a throsglwyddo gwybodaeth
- Bydd mwy o wybodaeth y farchnad yn galluogi cynhyrchwyr i ddeall gofynion y farchnad
- Bydd buddsoddi mewn ymchwil a datblygu perthnasol yn galluogi'r sector cig coch i fanteisio ar ddatblygiadau technolegol er mwyn cystadlu mewn marchnad fyd-eang
- Gallai gwelliannau ar y safle drwy ymchwil a datblygu a deallusrwydd y farchnad arwain at ddatblygiadau mewn arloesedd a thechnoleg – gallai awtomeiddio prosesau lladd-dy gynnig gwell effeithlonrwydd ac arbedion costau hirdymor
- Cyfle i ddangos yr effaith amgylcheddol gadarnhaol ehangach mae ffermydd cig coch Cymru yn ei chael

**Bygythiadau**

- Newid yn yr hinsawdd, a dealltwriaeth gyfyngedig gan y cyhoedd a'r cyfryngau o'r gwahaniaethau rhwng systemau ffermio ledled y byd (addasu a lliniaru - pwysau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o dda byw, a her i fwyta cig)
- Mae chwyddiant cynyddol yn her sylweddol, sy'n effeithio ar gostau cynhyrchu systemau cig eidion a chig oen yng Nghymru. Mae costau mewnbwn fferm allweddol - gan gynnwys tanwydd, ynni, gwrtaith a bwyd anifeiliaid - yn cael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar nifer o fusnesau yn y sector amaethyddol. Mae elw cynhyrchwyr yn cael eu gwasgu wrth i ffermwyr reoli mewnbynnau i wneud y mwyaf o gynhyrchiant a gall planhigion prosesu gael eu heffeithio os effeithir ar y cyflenwad
- Gallai gwydnwch y gadwyn gyflenwi cig coch gael ei herio ymhellach os bydd elw cynhyrchwyr yn cael ei gulhau ymhellach. Byddai cyfraddau cadw is a niferoedd difa uwch (gwartheg a defaid) yn effeithio ar y màs critigol yn y wlad, ac yn arwain at lefelau cynhyrchu cig coch is yn ystod y blynyddoedd i ddod. Byddai hyn yn effeithio ar hunangynhaliaeth y DU o ran cynhyrchu bwyd domestig, ac yn cynyddu'r ddibyniaeth ar fewnforion o bob cwr o'r byd
- Mae penderfyniad y DU i adael yr UE, ei marchnad sengl a'r PAC yn parhau i greu her, wrth i'r diwydiant ymateb i'r llwyfannu parhaus o rwystrau nad ydynt yn rwystrau masnach
- Mae cytundebau masnach newydd rhwng y DU a gwledydd ledled y byd yn fygythiad posibl i'r diwydiant o ran natur gystadleuol yn y farchnad ddomestig a diogelu brand mewn mannau eraill
- Methu â chynnal màs critigol o dda byw yng Nghymru. Os na fydd ffermwyr yn cael eu hannog i gynnal niferoedd da byw yng Nghymru (yn enwedig defaid a gwartheg), bydd effaith enfawr ar gyflenwad cig oen a chig eidion, gan effeithio ar hyfywedd a phroffidioldeb yr holl gadwyn gyflenwi cig coch Cymru ac yn effeithio ar refeniw sy'n deillio o fwyd.
- Gallai canfyddiad y cyhoedd o gig coch gael ei effeithio'n andwyol gan ofn iechyd y cyhoedd
- Mae cynyddu mewnforion yn lleihau'r galw masnach am gig coch Cymru
- Amrywiadau yn y gyfradd gyfnewid
- Poblogaeth ffermwyr sy'n heneiddio a llai o newydd-ddyfodiaid
- Gall materion iechyd anifeiliaid a’r gallu i olrhain danseilio hyder defnyddwyr ac arwain at ostyngiad yn y galw am gig coch Cymru
- Mae pris yn parhau i fod yn sbardun allweddol ac mae cig coch yn wynebu cystadleuaeth gynyddol gan ffynonellau rhatach o brotein fel cyw iâr, pysgod a phroteinau nad ydynt yn gig
- Mae canfyddiad y cyhoedd o effaith andwyol bosibl cig coch yn eu diet ar iechyd a'r symudiad tuag at fwyta hyblyg
- Mae niferoedd da byw sy’n amrywio, costau cynhyrchu cynyddol, achosion o glefydau anifeiliaid, cydymffurfiaeth reoleiddiol cynyddol, cost ar gyfer gwaredu sgil-gynhyrchion, gostyngiad gwerth crwyn ac offal, yn ogystal â'r prinder llafur yn cyfyngu ar gyfleoedd i fanteisio i’r eithaf ar drwybwn yng Nghymru
- Mae gofynion newidiol ar dir a fyddai fel arall yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu da byw (plannu coed neu gynhyrchu biodanwydd) yn bygwth tarfu ar y farchnad ac ystumio'r farchnad

**HCC**

Mae yna hefyd nifer o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau strategol mae HCC yn eu hwynebu.

**Cryfderau**

- Staff o safon uchel gyda llawer o brofiad a moeseg gwaith uchel
- Sefyllfa dda gyda rhanddeiliaid ffermwyr a pherthynas dda â chymdeithasau masnach
- Cyfathrebu a rhwydwaith gwleidyddol da
- Cylch gwaith sy'n canolbwyntio ar gyflenwi
- Dychwelyd ardoll cig coch

**Gwendidau**

- Ceisio cystadlu â chystadleuwyr mwy
- Lledaenu adnoddau cyfyngedig yn eang - cylch gwaith statudol eang
- Rheoli disgwyliadau rhanddeiliaid - mae gan weithgareddau'r farchnad a'r diwydiant gyfnod datblygu hir cyn dwyn ffrwyth

**Cyfleoedd**

- Mwy o effeithlonrwydd trwy weithio'n agosach gyda chyrff mewn sectorau eraill
- Cyfleoedd ariannu allanol
- Defnyddio technolegau cyfathrebu newydd i wella cyrhaeddiad ac i hwyluso ymgysylltiad rhyngweithiol wedi ei dargedu'n fwy penodol gydag ystod eang o gynulleidfaoedd


**Bygythiadau**

- Gallai polisïau'r llywodraeth arwain at leihau niferoedd da byw, gan effeithio ar incwm ardoll
- Tirwedd ariannu heriol a mwy cystadleuol gyda photiau cyllid llai ar gael
- Pwysigrwydd cynyddol Llywodraeth y DU o ran trafod masnach a diffyg dylanwad uniongyrchol HCC ar bolisi'r DU
- Disgwyliad cynyddol ar dalwyr ardoll o ran lefelau cyflawni yn erbyn cylch gwaith ac o fewn cyllideb gyfyngedig
- Gall amharu ar fusnes oherwydd ystyriaethau iechyd cyhoeddus arwain at anallu HCC i gyflawni ei swyddogaethau

## 5. CYLLID

### Incwm

Daw cyllid craidd HCC gan Ardoll Cig Coch Cymru.




Incwm wedi'i Gyllidebu 2024-25 £4,578k

Ardoll Cig Coch Cymru

Daw cyllid craidd HCC o Ardoll Cig Coch Cymru sy'n cael ei dalu ar y cyd gan gynhyrchwyr a lladdwyr/allforwyr, ac yn cael ei godi ar yr holl wartheg, defaid a moch sy'n cael eu lladd yng Nghymru (sy'n addas i'w bwyta gan bobl) neu sy'n cael eu hallforio'n fyw.

Ers mis Ebrill 2008 mae Gweinidogion Cymru wedi bod yn gyfrifol am osod a chodi Ardoll Cig Coch Cymru. Drwy Gytundeb Dirprwyo, mae HCC yn casglu'r ardoll o ddefaid, cig eidion a moch ar y man lladd yng Nghymru ac yn ymgymryd â'r swyddogaethau statudol mewn perthynas â diwydiant cig coch Cymru.

Ers mis Ebrill 2021 mae HCC hefyd wedi bod yn derbyn ardoll wedi'i ddychwelyd (ardoll sy'n cael ei chyfrifo ar dda byw a anwyd ac a fagwyd yng Nghymru sy'n cael eu lladd yn Lloegr neu'r Alban).

Mae ardoll statudol wedi bodoli yn y sector cig coch ers nifer o flynyddoedd i ariannu gweithgareddau i gynorthwyo gyda datblygiad y sector hwn, yn enwedig gwaith na fyddai'n cael ei wneud o dan amodau arferol y farchnad. Mae hyn yn deillio o'r ffaith bod cynhyrchwyr yn y sectorau hyn, ac mewn llawer o achosion proseswyr hefyd, yn rhy fach i allu sicrhau adnoddau ar gyfer meysydd gwaith o'r fath eu hunain.

Ymgynghorodd HCC â'r diwydiant ar gyfraddau ardoll yn ystod tymor yr hydref 2022. Cynigiwyd y byddai cynnydd yn y dyfodol yn y cyfraddau Ardoll yn cysylltu â chwyddiant, wedi'i fesur gan CPIH o'r flwyddyn galendr flaenorol. Roedd ymateb y diwydiant yn gefnogol gyda Bwrdd HCC yn gwneud yr argymhelliad i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd. Cymeradwyodd y Gweinidog argymhelliad y Bwrdd i gynyddu'r ardoll o 9.2% ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-2024 ac fe'i rhoddwyd ar waith o 1 Ebrill 2023 a nododd y cynnig i gysylltu cyfraddau ardoll yn fwy cyffredinol â CPIH yn y dyfodol. Bydd y Bwrdd yn parhau i ystyried pob diwygiad i'r gyfradd ardoll yn y dyfodol cyn i'r argymhellion gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru.

Mae Prif Swyddog Gweithredol HCC, sef y Swyddog Cyfrifyddu, yn bersonol gyfrifol am sicrhau bod yr ardoll yn cael ei wario'n briodol.


Cyllid Allanol

Mae HCC yn chwilio am gyllid amgen ac yn gweithio ar y cyd â chyrff ardoll Prydain Fawr, cyrff ymchwil a sefydliadau perthnasol eraill, er mwyn cael mynediad at gyllid a sefydlu rhaglenni sydd o fudd i'r gadwyn gyflenwi gyfan.

**Gwariant**

Mae HCC yn defnyddio incwm ardoll i ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch o Gymru, gyda gwariant ardoll yn cael ei bennu gan Fwrdd HCC.

Mae strwythur y cyfrif Incwm a Gwariant yn adlewyrchu natur y gweithgareddau arfaethedig ar gyfer 2022-2026.




Gwariant wedi'i Gyllidebu 2024-25 £4,578k

## 6. RHAGLEN GYFLAWNI


Mae'r Cynllun hwn yn cael ei gyfarwyddo gan y ddogfen *Gweledigaeth Cig Coch i Gymru* ac mae'n canolbwyntio ar gyflawni cost-effeithiol ac yn cydnabod pwysigrwydd mesur canlyniadau ac effaith buddsoddiadau. Mae cydweithredu a chyfathrebu ar draws y diwydiant yn rhan annatod o gyflawni llwyddiant.

**Ffocws Strategol**
Mae'r naw maes blaenoriaeth canlynol yn sail i Weledigaeth HCC gyda chynaliadwyedd a tharddiad wedi'u plethu drwyddi.

| Gweledigaeth Cig Coch i Gymru - Blaenoriaethau |
|---|
| 1. Gosod cig coch o Gymru fel cynnyrch premiwm<br>2. Datblygu cyfleoedd masnach yr UE ar gyfer cig coch Cymru<br>3. Optimeiddio defnydd domestig (Prydain Fawr) o gig coch o Gymru<br>4. Chwilio am ddefnyddwyr newydd ar gyfer cig coch Cymru mewn marchnadoedd byd-eang sefydledig<br>5. Sicrhau cyfleoedd marchnad ar gyfer cig coch Cymru y tu allan i'r UE<br>6. Gwella natur gystadleuol diwydiant cig coch Cymru a chefnogi rôl diwydiant cig coch Cymru mewn diogelwch bwyd byd-eang<br>7. Cefnogi'r economi, yr amgylchedd naturiol a'r gymdeithas drwy gynhyrchu a phrosesu cig coch cynaliadwy yng Nghymru<br>8. Cynllunio o ran masnach, cynhyrchu a phrosesu yn y dyfodol trwy sganio'r gorwel a deall y farchnad<br>9. Dangos arweinyddiaeth effeithiol a chyfathrebu i sicrhau undod pwrpas ac eiriolaeth rhagweithiol |

**Cynllun Cyflawni**
Yn unol â'r Weledigaeth, mae'r cynllun hwn yn nodi'r meysydd gwaith allweddol sydd wedi'u blaenoriaethu gan Fwrdd HCC ar gyfer defnydd effeithiol o arian Ardoll Cig Coch Cymru yn ystod tymor y Llywodraeth. Mae hefyd yn ystyried yr heriau mae'r diwydiant yn eu hwynebu mewn perthynas â chwyddiant cynyddol a diogelwch bwyd.

Mae tair rhaglen wedi'u nodi o fewn y cynllun cyflawni ar gyfer tymor y Llywodraeth, ac mae'r cynllun hwn yn nodi dangosyddion perfformiad allweddol ac yn amlinellu'r canlyniadau disgwyliedig ar gyfer 2022-2026.




Mae'r rhaglenni hyn yn cael eu cefnogi ymhellach gan gyfathrebu â rhanddeiliaid, sy'n ceisio datblygu rôl HCC fel yr awdurdod a'r arweinydd meddwl ar ddatblygu a hyrwyddo'r gadwyn gyflenwi cig coch yng Nghymru.

Bydd cyfraniad parhaus HCC i grwpiau Llywodraeth Cymru, fforymau polisi a chyfarfodydd eraill sy'n llunio diwydiant yn y dyfodol hefyd yn hanfodol er mwyn cadw goroesiad diwydiant cig coch Cymru wrth wraidd yr holl drafodaethau ynghylch masnach, rheoleiddio a defnydd tir yn ogystal â thrafodaethau ynghylch dyfodol yr economi wledig a chymunedau sy'n dibynnu'n helaeth ar gynhyrchu a phrosesu cig coch. Bydd angen i weithgarwch cyfathrebu hefyd sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a thalwyr ardoll yn ymwybodol o effaith debygol senarios posibl a chynlluniau wrth gefn HCC i'r graddau y mae hynny'n briodol.

Mae'r cyflenwad HCC arfaethedig ar gyfer 2022-2026 wedi'i grynhoi isod ynghyd â’r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a fesurwyd ym mlwyddyn olaf tymor y Llywodraeth:

HYBU CIG CYMRU MEAT PROMOTION WALES

| | Allbwn | Effaith | |
|---|---|---|---|
| **Cynaliadwyedd a pholisi’r dyfodol** | HCC yn seiliedig ar dystiolaeth / yn dibynnu ar ddata<br>Brandiau cig coch Cymreig wedi’u hatgyfnerthu gan nodweddion amgylcheddol<br>Cadwyn gyflenwi cig coch wybodus<br>Gwarchod y brand<br>Amgylchedd polisi sy’n ffafriol i ddiwydiant cig coch Cymru<br>Gwaith HCC yn cael ei ariannu’n ddigonol | Cynhyrchu cig coch Cymru’n gynaliadwy<br>Rol cig coch Cymru o fewn diogelwch bwyd byd eang yn cael ei atgyfnerthu | Diwydiant proffidiol, effeithlon, cynaliadwy, arloesol a chystadleuol sy’n galu gwrthsefyll newid gwleidyddol ac amgylcheddol sy’n fanteisiol i bobl Cymru. *(Gweledigaeth Cig Coch i Gymru)* |
| **Marchnata strategol a chysylltiadau** | Bod brandiau cig coch Cymru yn frand(iau) sy’n cael eu dewis gan ddefnyddwyr yn y farchnad yng Nghymru, y DU a marchnadoedd allforio. Casglu data / canlyniadau i gryfhau’r stori i werthu mewn marchnadoedd allweddol. | Cynyddu’r galw am gig coch o Gymru<br>Gosod llwyfan premiwm sy’n fanteisiol i’r gadwyn gyflenwi gyfan | |
| **Darpariaeth y gadwyn gyflenwi** | **Datblygu’r Farchnad**<br>Mae brandiau cig coch Cymru yn frand(iau) premiwm o ddewis:<br>• Manwerthwyr y DU/ gwasanaeth bwyd/ mewnforwyr<br>• Manwerthwyr/ gwasanaeth bwyd mewn marchnadoedd allforio pwysig<br>Cig coch Cymru sydd wedi’i frandio’n weladwy mewn masnach (domestig ac allforio)<br>**Cynhyrchwyr a phroseswyr**<br>Cadwyn gyflenwi gref, gwydn, arloesol a deinamig sy’n cynhyrchu cig coch Cymru sy’n addas ar gyfer y farchnad a galw amdanynt | **Datblygu’r Farchnad**<br>Cynyddu argaeledd cig coch Cymru<br>Prisio premiwm sy’n elwa’r gadwyn gyflenwi gyfan<br>**Cynhyrchwyr a phroseswyr**<br>Cyflenwad cyson a chynaliadwy o gynnyrch cig coch Cymru sy’n cwrdd a gofynion defnyddwyr, proseswyr, y farchnad a manylebau | |
| | Grwpiau o randdeilaid yn:<br>• ymwybodol o waith HCC ac yn deall sut maen nhw’n elwa ohono<br>• yn derbyn gwybodaeth a mewnwelediad perthnasol a defnyddiol<br>• yn ystyried cig coch Cymru fel cynnyrch maethlon, sydd wedi’i gynhyrchu’n gynaliadwy ac i safon | Ystyrir HCC i fod yn awdurdod ac arweinydd ar ddatblygu a hyrwyddo cadwyn gyflenwi cig coch yng Nghymru drwy grwpiau rhanddeiliaid targed | |

HYBU CIG CYMRU MEAT PROMOTION WALES

| | KPI |
|---|---|
| **Cynaliadwyedd a pholisi’r dyfodol** | • Trawsnewid o sero net erbyn 2050<br>• Twf (GYC ac Allbwn Amaethyddol Cyfun) |
| **Marchnata strategol a chysylltiadau** | • Gwerthiant o ran cyfaint a gwerth o gig coch Cymru wedi’i frandio, mewn marchnadoedd allweddol:<br>- yn y sector manwerthu<br>- yn y sector gwasanaeth bwyd<br>• Adenillion o fuddsoddi mewn marchnata |
| **Darpariaeth y gadwyn gyflenwi** | • Gwerthiant o ran cyfaint a gwerth o gig coch Cymru wedi’i frandio, mewn marchnadoedd allweddol:<br>- yn y sector manwerthu<br>- yn y sector gwasanaeth bwyd<br>- marchnadoedd newydd<br>• Pris premiwm i gig coch Cymru<br>• Ymgysylltu gyda’r diwydiant ar weithgaredd HCC<br>• Cyflenwad o anifeiliaid o Gymru yn cyrraedd y proseswyr |
| **Cyfathrebu corfforaethol** | • Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid |